Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

FFOCWS AR Y DYFODOL

Llesiant yn ein Cymuned

2017 – 2022

Cynnwys

1. Gwneud Pethau Gwahanol 1
2. Buddsoddi mewn Llesiant pobl 2
3. Rhestr Eirfa 3
4. Cyflwyniad 4
5. Ariannu'r Cynllun 5
6. Cynnwys Ein Cymunedau 6
7. Amcanion Llesiant 8
8. Cyfraniad ein Hamcanion Llesiant i'r Nodau Llesiant 9

Y Dechrau Gorau i Fywyd

9. BS 1: Plant y Cael y Dechrau Gorau i'w Bywyd 10
10. BS 2: Mae plant a phobl ifanc wedi eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus 13

Bywyd Gwaith

11. WL 1: Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: Datblygu gweithlu'r dyfodol 16
12. WL 2: Datblygu'r amgylchedd ac isadeiledd fel bod busnesau'n ffynnu 18

Llesiant Amgylcheddol

13. EW 1: Cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad 20
14. EW 2: Cymunedau'n diogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol 23

Bwy'n Dda

15. LW 1: Datblygu cymunedau mwy diogel 25
16. LW 2: Iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl 28
17. LW 3: Pobl yn byw'n annibynnol 30

18. Cymryd rhan 33

1. Gwneud Pethau Gwahanol

1.1. Croeso i'n cynllun Llesiant cyntaf "Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned". Yn ein cynllun, rydym yn esbonio'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl oddi wrth ein Cynghorwyr a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl oddi wrth y Cyngor i gyflawni ein Hamcanion Llesiant.

1.2. Fel Cyngor, rydym yn ymroddedig i weithio'n agosach at ein cymunedau i adeiladu cydnerthedd ledled y Fwrdeistref Sirol a dod â phobl ynghyd. Fel arweinydd, rwyf am ddefnyddio fy rôl i adeiladu cysylltiadau rhwng pobl a rhoi grym i weithredu cymunedol fel modd o wella Llesiant.

1.3. Fel pob corff cyhoeddus, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau cynyddol ynghyd â chwtogi difrifol anghymesur o ran ariannu o'r llywodraeth. Gall y modd yr ydym yn ymateb i'r heriau hyn fod yn gyfle i wneud gwahanol bethau. Bydd gwneud ein hasedau'n symudol ymhlith unigolion a chymunedau, i ffocysu ar yr hyn sydd fwyaf gwerthfawr i bobl, yn hanfodol o ran dynodi cyfleoedd i wneud gwahanol bethau.

1.4. Fel Cynghorwyr, gallwn arwain datblygu cymunedol drwy ddod â phobl a chymunedau ynghyd. Gallwn ddefnyddio ein gwybodaeth ein hunain, sgiliau a phrofiadau i hyrwyddo cyfleoedd am gynnwys cymunedol i gyflawni newidiadau sy'n gadarnhaol ac yn para am gyfnod hir.

Y Cynghorydd Kevin O'Neill

Arweinydd y Cyngor

"Rwyf am i'n Cynghorwyr fod allan yn ein cymunedau, yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau ein cymuned i wella Merthyr Tudful."

2. Buddsoddi mewn Llesiant pobl

2.1. Yn gynharach eleni, cyflwynais y Datganiad o Lesiant, a oedd yn gosod ein Hamcanion Llesiant ar gyfer y gymuned dros y bum mlynedd nesaf.

2.2. Bellach, ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rwyf yn falch i gyflwyno ein cynllun “Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned". Mae’r cynllun yn gosod allan yr hun y byddwn yn ei wneud yn ein cymunedau I glyfenwi ein Hamcanion Llesian ein cymuned.

2.3. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn gweithio’n well gyda’i gilydd ac â chymunedau er mwyn cael dull gweithredu mwy cydlynol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni barhau i brofi llymder ac ansicrwydd yn dilyn penderfyniad y DU i adael Ewrop.

2.4. Rhaid i ni wneud yn siŵr fod y penderfyniadau a wnawn yn sicrhau gwelliannau o ran Llesiant diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol pobl sy’n byw a gweithio yn y Fwrdeistref Sirol heddiw ac yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, byddaf yn gweithio i sicrhau fod yr awdurdod lleol yn gweithio’n wahanol drwy ddilyn y pum ffordd o weithio a osodir yn y Ddeddf.

2.5. Mae Arweinydd y Cyngor wedi amlinellu’r rôl mae Cynghorwyr lleol yn ei chwarae fel llysgenhadon cymunedol. Byddan nhw’n helpu i ymrymuso pobl leol i drawsffurfio eu cymuned a mynd i’r afael â’r materion maen nhw’n eu hwynebu drwy weithredu cymunedol.

2.6. Mae swyddogion y Cyngor hefyd wedi bod yn cydweithio â phreswylwyr i helpu i ddatblygu dealltwriaeth waelodlin ar gyfer llesiant yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn wedi helpu i siapio Amcanion Llesiant ein cynllun. Mae wedi ein galluogi i ddeall yn well sut i wella Llesiant yn eich cymunedau.

Gareth Chapman

Prif Weithredwr

"Helpwch fi i’ch helpu chi, i sicrhau fod y Cyngor a’i dîm o staff proffesiynol a llawn cymhelliant yn gweithio gyda chi, gymunedau’r Cyngor Bwrdeistref, i gyflawni’r Nodau Llesiant a osodir yn y cynllun hwn."

3. Rhestr Eirfa

5 ffordd o weithio	Ceir pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod yn gallu cydweithio'n well, gan osgoi ail-wneud camgymeriadau'r gorffennol ac ymrafael â rhai o'r heriau hir dymor yr ydym yn eu hwynebu. Dyma'r pum peth:
1- tymor hir	Pwysigrwydd cydbwyso angen neu ofyniad byr dymor tra bo'r gallu i ddiwallu anghenion hir dymor yn cael ei ddiogelu.
2 – ataliad	Gall atal problemau rhag digwydd neu waethygu, helpu cyrff cyhoeddus i ryddhau adnoddau a chyflawni eu Hamcanion Llesiant.
3 – integreiddio	Ystyried sut gallai Amcanion Llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r Nodau Llesiant, ar eu Hamcanion Llesiant hwy, neu ar Amcanion Llesiant cyrff cyhoeddus eraill.
4 – cydweithio	Gweithredu ar y cyd gydag unrhyw berson arall neu sefydliadau gwahanol a allai helpu corff cyhoeddus i fodloni ei Amcanion Llesiant.
5 – cynnwys ac ymglymiad	Pwysigrwydd ymglymiad neu gynnwys pobl sydd â diddordeb o ran cyflawni'r Nodau Llesiant, a sicrhau fod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff cyhoeddus yn ei gwasanaethu.
Amcan Llesiant	Mae'r Amcanion Llesiant yn gosod allan yr hyn yr ydym ni'n teimlo sydd angen digwydd yn lleol i helpu i wella Llesiant i bobl Merthyr Tudful a chyflawni'r Amcanion Llesiant cenedlaethol.
Nod Llesiant	Mae'r saith Nod Llesiant yn dangos y fath o Gymru yr ydym am ei gweld. Gyda'i gilydd maen nhw'n darparu gweledigaeth a rennir ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag ato.
Cynllun Ariannol Tymor Canolig	Cynllun i gydbwyso goblygiadau ariannol yr amcanion a pholisïau yn erbyn cyfyngiadau o ran adnoddau, sy'n darparu sail ariannol ar gyfer gwneud penderfyniad, i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig (5 mlynedd).
Prosiect Peilot	Mae prosiect peilot yn brosiect cychwynnol ar raddfa fach, sy'n cael ei weithredu er mwyn profi hyfywedd syniad y prosiect.

4. Cyflwyniad

4.1. Am y tro cyntaf, rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn modd cynaliadwy i gyflawni'r weledigaeth gyffredin i wella Llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Felly, wrth wneud penderfyniadau mae angen i ni wneud yn siŵr, ein bod ni'n rhoi ystyriaeth i'r effaith y gallent ei gael ar y bobl sy'n byw eu bywydau ym Merthyr Tudful heddiw ac yn y dyfodol.

4.2. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru, sydd â'r rôl o ymddwyn fel gwarcheidwad ar gyfer buddion cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru a chefnogi'r cyrff cyhoeddus sydd wedi eu rhestru yn y Ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r Nodau Llesiant.

Ein Cynllun, Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned

4.3. Yn ein Datganiad o Lesiant, rydym yn gosod allan cwmpas bob Amcan Llesiant gan amlinellu pam ein bod yn ystyried y bydd bodloni'r Amcan Llesiant yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad i gyflawni'r saith Nod Llesiant.

4.4. Yn ein cynllun [**Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned**], rydym yn gosod allan sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r Amcanion Llesiant. Yn ychwanegol at y gwaith bob dydd a gaiff ei gyflawni gan y Cyngor, rydym hefyd wedi dynodi'r prosiectau allweddol yr ydym yn gobeithio fydd yn cael effaith gadarnhaol ar Lesiant yn ein cymunedau.

4.5. Byddwn yn adolygu ein cynllun yn flynyddol, i wneud yn sicr fod y prosiectau allweddol yn parhau'n berthnasol ac wedi eu halinio'n glir at ein Hamcanion Llesiant. Yn ychwanegol, byddwn ni hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol a fydd yn gwerthuso'r cynnydd rydym wedi ei wneud.

4.6. Mae'r diagram syml isod yn darlunio ble y saif ein cynllun [**Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned**] mewn perthynas â'r gwaith rhanbarthol ledled Cwm Taf ac oddi fewn i'r awdurdod lleol.



5. Ariannu’r Cynllun

5.1. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig yr awdurdod lleol yn amlinellu dyraniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac yn rhagamcanu gofynion y gyllideb yn y dyfodol. Yn y dyfodol, bydd angen i’n Cynllun Ariannol Tymor Canolig alinio gyda’n Hamcanion Llesiant newydd.

5.2. Er mwyn alinio rheoli ariannol awdurdod lleol gyda’r Amcanion Llesiant, mae angen i ni ailddiffinio'r manylion yn ein strwythur adrodd yn ôl ariannol. Bydd hyn yn ychwanegu gwybodaeth ychwanegol a fydd yn helpu i bennu dyraniadau ariannol, drwy weithrediadau gwasanaeth, i’n Hamcanion Llesiant.

5.3. Bydd y gwaith hwn o ailddiffinio’r manylion oddi fewn i’n strwythur adrodd yn ôl ariannol yn digwydd yn ystod 2017 ac yn cael ei gwblhau mewn pryd i gyhoeddiad Setliad Refeniw Llywodraeth Leol ar gyfer 2018/19.

5.4. Bydd hyn yn galluogi’r awdurdod lleol i alinio dyfodol Setliadau Refeniw at ein Hamcanion Llesiant yng nghyhoeddiad nesaf ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a fydd ar gael ym mis Mawrth 2018.

6. Cynnwys Ein Cymunedau

6.1. Ceir un ar ddeg Rhanbarth Etholiadol ym Merthyr Tudful, sy'n cael eu cynrychioli gan 33 Cynghorydd. Mae ein Cynghorwyr yn chwarae rôl arwain sylweddol fel llysgenhadon cymunedol, gan helpu i ddarparu deallusrwydd cymunedol a helpu i ymrymuso pobl leol at drawsffurfio eu cymuned a mynd i'r afael â'r materion maen nhw'n eu hwynebu.

Rhanbarthau Etholiadol Merthyr Tudful (Wardiau)

- Bedlinog
- Cyfarthfa
- Dowlais
- Gurnos
- Ynys Owen
- Parc
- Penydarren
- Plymouth
- Y Dref
- Treharris
- Faenor

6.2. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn am gynhwysiant cymunedol sy'n fwy 'gweithredol' er mwyn cyflawni'r deilliannau. Mae hyn yn golygu bod angen i ni gynnwys ein cymunedau wrth gynllunio a dylunio ein gwasanaethau a chynnwys cymunedau yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

6.3. Er mwyn cyflawni lefel o gynhwysiant cymunedol sy'n fwy 'gweithredol', byddwn yn peilota prosiect a gaiff ei arwain gan Gynghorydd ac yn ymgysylltu â chymuned leol a dynodi beth sy'n bwysig iddyn nhw oddi fewn i'w hardal.

6.4. Ar ôl dynodi, boed yn fater o ymrafael â phroblem gymunedol neu gryfhau rhywbeth da yn y gymuned, bydd y camau nesaf yn ymwneud â chefnogi datblygu ymateb sydd wedi ei seilio yn y gymuned.

Datblygu Gweithredu yn y Gymuned

6.5. Byddwn yn darparu cefnogaeth i'n Cynghorwyr fel eu bod yn gallu cyflawni gweithdai gweithredu yn ein cymunedau lleol. Fe anelir at wneud i gymunedau penodol archwilio a chynllunio ymatebion arfaethedig am faterion lleol maen nhw'n eu hwynebu, a chael cefnogaeth briodol pan fo'n ofynnol. Bydd ein Cynghorwyr yn dod ynghyd â'r gymuned i beilota prosiect, mewn un ward i ddechrau, i ddysgu am ba ddulliau gweithredu sy'n gweithio i gael pobl i ymwneud â gwella eu cymuned.



N	**GRADDFA / SCALE:** 1:100,000
	DYDDIAD / DATE: 12/06/2017
	ADRAN / DEPARTMENT: Performance Scrutiny
	ARLUNIWYD GAN / DRAWN BY: RB (Planning)
TEITL / TITLE: Merthyr Tydfil Wards and Communities	

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017
Arolwg Ordnans 100025302
Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf.

© Crown copyright and database rights 2017
Ordnance Survey 100025302
You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

7. Amcanion Llesiant

7.1. Er mwyn gosod ein Hamcanion Llesiant, gwnaethom gyflawni asesiad Llesiant ledled Cwm Taf[1]. Yn ychwanegol, rydym wedi bod yn cydweithio â phreswylwyr i sefydlu dealltwriaeth waelodlin o Lesiant ym Merthyr Tudful. Mae'r wybodaeth hon wedi helpu i siapio'r Amcanion Llesiant, deall ymatebion arfaethedig i wella Llesiant a gosod sgôr Llesiant ar gyfer y boblogaeth. Yn gryno, mae'n ein Hamcanion Llesiant[2] yn cynnwys pedwar prif grŵp:

BS Y Dechrau Gorau i Fywyd

BS 1 Plant yn cael y dechrau gorau i'w bywyd

BS 2 Mae plant a phobl ifanc wedi eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus

WL Bywyd Gwaith

WL 1 Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: Datblygu gweithlu'r dyfodol

WL 2 Datblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu

EW Llesiant Amgylcheddol

EW 1 Cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad

EW 2 Cymunedau'n diogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol

LW Byw'n Dda

LW 1 Datblygu cymunedau mwy diogel

LW 2 Iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl

LW 3 Pobl yn byw'n annibynnol

7.2. Yn ein Datganiad o Lesiant, rydym yn gosod allan cwmpas pob Amcan Llesiant, sy'n darparu'r safbwynt strategol i edrych ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu a'r gwaith a wnawn.

7.3. Yn y cynllun hwn, rydym yn gosod allan y camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau ein bod gwneud y mwyaf o'n cyfraniad i'r Amcanion Llesiant. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar y prosiectau a'r gweithgareddau yr ydym yn ymgymryd â nhw pan fo perthynas glir ac uniongyrchol o ran cyflawni'r Amcanion Llesiant.

[1] Gallwch ddarllen y dogfennau asesu llesiant ar Hyb Cwm Taf

[2] Gallwch ddarllen ein Datganiad o Les ar wefan y Cyngor

8. Cyfraniad ein Hamcanion Llesiant i'r Nodau Llesiant

8.1. Mae'r saith Nod Llesiant[3] yn dangos y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Gyda'i gilydd maen nhw'n darparu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus Cymru weithio tuag atynt. Mae'r siart isod yn rhoi crynodeb byr o ble mae ein Hamcanion Llesiant yn alinio at y Nodau Llesiant.





[3] Gallwch ddarganfod rhagor o wybodaeth am y Ddeddf a'r Nodau Llesiant yn y Canllaw hwn.

9. BS 1: Plant y Cael y Dechrau Gorau i'w Bywyd

Mae plant yn cael profiad cynnar cadarnhaol i sicrhau eu bod yn barod i ddysgu, yn barod ar gyfer yr ysgol ac yn cael cyfleoedd da mewn bywyd.

9.1. Mae'r hyn sy'n digwydd i blant yn ystod eu blynyddoedd cynharaf yn allweddol i ddeilliannau bywyd fel oedolyn. Caiff hyn bellach ei gefnogi gan amrywiaeth eang o dystiolaeth ymchwil o arbenigwyr addysg, iechyd, cyfiawnder ac economaidd. Mae'r amcan llesiant hwn yn ymwneud â rhoi'r dechrau gorau posibl i fywydau'n plant, a'u gosod ar lwybr sy'n arwain at ddeilliannau cadarnhaol yn ddiweddarach yn eu bywyd.

9.2. O safbwynt Merthyr Tudful, mae'r cydrannau allweddol i gefnogi datblygiad cadarnhaol yn y blynyddoedd cynnar yn cynnwys:

- Amgylchedd cartref gan blant sy'n meithrin ac yn ysgogi
- Mynediad gan blant i addysg o ansawdd uchel cyn ysgol ac yn yr ysgol
- Helpu mamau i gael iechyd mamol dda
- Helpu rhieni gyda llythrennedd a rhifedd i wella eu gallu i gefnogi dysgu eu plant

Felly, sut wnawn ni roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant?

9.3. Er mwyn sicrhau fod gan blant amgylchedd cartref sy'n meithrin ac yn ysgogi ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cefnogi datblygiad plant i wella eu sgiliau iaith cynnar i wneud yn siŵr eu bod yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig wrth gael mynediad i'r ysgol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi teuluoedd â gwydnwch isel i'w helpu nhw i ymdopi pan na fydd pethau'n dilyn y trywydd a ddisgwyliwyd.
- Mae twf a datblygiad iach plentyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn cynnwys yr amgylchedd sydd union o'i amgylch, y mae'n byw ynddo. Mae plant digartref, yn benodol, yn wynebu anfantais oherwydd yr aflonyddwch mae digartrefedd yn ei achosi i'w haddysg yn yr ysgol. Dros y 6 mis nesaf byddwn yn datblygu cynllun prosiect a fydd yn ail-lunio darpariaeth y gwasanaeth i roi ffocws ar atal teuluoedd â phlant rhag dyfod yn ddigartref.

9.4. Er mwyn sicrhau fod plant yn cael mynediad at addysg o ansawdd uchel cyn ysgol ac yn yr ysgol ledled Merthyr Tudful:

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybod rhagor am:

Ysgolion a Dysgu

Gwybodaeth Teulu

Gofal Cymdeithasol i Blant a Theuluoedd

- Byddwn, fel rhan o'r prosiect ysgolion yr 21ain ganrif, yn adeiladu ysgol gynradd newydd i gymryd lle adeilad presennol Ysgol Gynradd y Graig a chyn Ysgol Feithrin Trefechan.
- Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu ysgolion i lywio gwelliant drwy gefnogi arweinwyr ysgol a llywodraethwyr i weithio ynghyd i greu'r amgylchedd dysgu o'r ansawdd gorau i'r holl ddisgyblion, ac i ddatblygu eu sgiliau fel eu bod yn gallu gwneud y penderfyniadau gorau er budd y disgyblion.

9.5. Er mwyn helpu ein mamau i feddu ar iechyd mamol da ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn gweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol i annog mamau beichiog a mamau newydd i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol.
- Byddwn yn cefnogi iechyd mamol da drwy gynnig i famau cymwys mewn ardaloedd dechrau'n deg, well cefnogaeth famol i fynd i'r afael ag ysmygu yn ystod beichiogrwydd.

9.6. Er mwyn helpu rhieni a gofalwyr i wella eu gallu i gefnogi dysgu eu plant ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn gweithio â rhieni, gofalwyr ac ysgolion i ddarparu cyfleoedd i rieni a gofalwyr i wella eu sgiliau sylfaenol a chynnwys rhieni yn fwy yn nysgu eu plant.

A sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella?

9.7. Drwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, byddwn yn gwybod fod pethau'n well pan fo:

- Deilliannau a safonau addysgiadol i ddysgwyr a grwpiau o ddysgwyr yn gwella
- Datblygiad blynyddoedd cynnar plant yn gwella
- Iechyd a llesiant plant a phobl ifanc yn gwella
- Gwydnwch ymhlith teuluoedd sy'n derbyn cefnogaeth yn gwella
- Iechyd mamol mamau sy'n derbyn cefnogaeth yn gwella

Ble i chwilio am gyfleoedd yn y dyfodol?

9.8. Bydd angen i ni edrych ar ba gyfleoedd sydd yn y dyfodol ar gyfer gwneud gwahanol bethau, a ddylai fod â'u ffocws ar:

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybod rhagor am:
Ysgolion a Dysgu
Gwybodaeth Teulu
Gofal Cymdeithasol i Blant a Theuluoedd

- Beth yn fwy y gallwn ei wneud i helpu i atal a lliniaru digartrefedd, yn enwedig pan fo'r digartrefedd yn cynnwys teuluoedd â phlant, fel ein bod ni'n gallu sicrhau bod ganddynt amgylchedd sefydlog yn y cartref.

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybod rhagor am:

Ysgolion a Dysgu

Gwybodaeth Teulu

Gofal Cymdeithasol i Blant a Theuluoedd

10. BS 2: Mae plant a phobl ifanc wedi eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus

Plant a phobl ifanc yn datblygu'r wybodaeth, sgiliau a'r priodoleddau y bydd eu hangen arnynt i ffynnu mewn bywyd, dysgu a gwaith.

10.1. Yr amcan hwn yw'r cam nesaf yn dilyn y blynyddoedd cynnar ac mae'n parhau â'r egwyddor o roi gwerth ar fuddion ehangach y gall dysgu ddyfod gydag e i'r unigolyn, i gymdeithas a chymunedau ac i'r economi. Y mae'n rhan o fframwaith i ddangos sut mae'r holl gydrannau perthnasol i'n systemau addysg a dysgu yn gallu cyfrannu at roi cronfa sgiliau i Ferthyr Tudful a fydd yn gwella llesiant economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol

10.2. O safbwynt Merthyr Tudful, mae'r cydrannau allweddol i gefnogi datblygiad cadarnhaol o ran addysg person ifanc yn cynnwys:

- Ysgolion yn cyfarparu disgyblion gyda lefelau uchel o sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh
- Ysgolion yn cyfarparu disgyblion â sgiliau cymdeithasol ac emosiynol
- Ysgolion yn cefnogi gweithgaredd corfforol disgyblion
- Gwasanaethau ieuenctid yn cynnwys pobl ifanc ac yn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau

Felly, sut fyddwn ni'n helpu ein plant a'n pobl ifanc i gael eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus?

10.3. Er mwyn sicrhau fod ysgolion ym Merthyr Tudful yn arfogi disgyblion â lefelau uchel o sgiliau lythrennedd, rhifedd a TGCh:

- Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu ysgolion i lywio gwelliant drwy gefnogi arweinwyr ysgol a llywodraethwyr i gydweithio i greu'r amgylchedd dysgu o ansawdd gorau i'r holl ddisgyblion, ac i ddatblygu eu sgiliau fel eu bod yn gallu gwneud y penderfyniadau gorau er budd y disgyblion.
- Byddwn yn gwneud yn siŵr fod yr awdurdod lleol a'n hysgolion yn barod am y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Ysgolion a Dysgu

- Byddwn yn cefnogi Canolfannau Adnoddau Dysgu, Addysg Heblaw yn yr Ysgol[4] ac Ysgol Arbennig Greenfield i ddatblygu a gosod dull gweithredu sydd â'r disgybl yn ganolog iddo i wella deilliannau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Byddwn yn datblygu ein system gwybodaeth disgyblion i gadw llygad ar gynnydd addysgiadol plant sy'n derbyn gofal, fel ein bod yn gallu rhoi'r gefnogaeth briodol iddynt i weld eu dysgu a Llesiant. Yn ychwanegol, byddwn yn gosod Llwybr at Waith i bobl ifanc sy'n derbyn gofal neu'r rhai sy'n gadael gofal.

10.4. Er mwyn sicrhau fod ysgolion ym Merthyr Tudful wedi eu harfogi â'r sgiliau cymdeithasol ac emosiynol:

- Byddwn yn adeiladu capasiti mewn ysgolion i'w helpu i ddiwallu anghenion disgyblion gydag anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol, gwella presenoldeb disgyblion ac â chymorth, cynnwys rhieni yn nysgu eu plant.

10.5. Er mwyn sicrhau fod ysgolion ym Merthyr Tudful yn cefnogi gweithgaredd corfforol disgyblion:

- Byddwn yn gweithio â phartneriaid lleol ac ysgolion i ddarparu llwybr i ferched i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol mewn ysgolion cynradd (MerchedM Cynradd) ac ysgolion uwchradd (MerchedM Uwchradd).

10.6. Er mwyn sicrhau fod gwasanaethau ieuenctid yn cynnwys pobl ifanc ac yn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau:

- Mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru byddwn yn gweithio â phobl ifanc sy'n profi rhwystrau sylweddol o ran cael mynediad at addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl ysgol. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddynodi pobl ifanc sydd yn wynebu'r risg mwyaf gan ddarparu cefnogaeth iddyn nhw a chyfleoedd dysgu a chynllun pontio.

A sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella?

10.7. Drwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, byddwn yn gwybod fod pethau'n well pan fydd:

- Deilliannau a safonau addysgiadol i ddysgwyr a grwpiau o ddysgwyr yn gwella
- Deilliannau a safonau addysgiadol i blant sy'n derbyn gofal yn gwella
- Deilliannau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwella
- Presenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn gwella
- Hyder o ran rhoi cynnig ar chwaraeon newydd a gweithgareddau ymarfer corff yn gwella

[4] EOTAS = Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Ysgolion a Dysgu

- Pobl ifanc yn pontio'n llwyddiannus i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Ysgolion a Dysgu

11. WL 1: Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: Datblygu gweithlu'r dyfodol

Caiff pobl â sgiliau uchel a chymwysterau uchel eu cefnogi gan economi leol sy'n gwneud defnydd llawn a chynhyrchiol o'r sgiliau hyn, ble mae ein cyflogwyr yn galw, gwerthfawrogi a gwneud y defnydd gorau o sgiliau eu gweithlu.

11.1. "Yn rhy aml, mae profiadau pobl ynghylch ceisio dod allan o dlodi yn adrodd stori ynghylch rhwystrau a maglau yn hytrach na ffyrdd allan"[5]. Mae hyn yn adleisio'r heriau a brofwyd gan bobl ddi-waith yng Nghwm Taf, a oedd yn siarad am gyfleoedd cyflogaeth annigonol a nifer o rwystrau i gyflogaeth yn enwedig y diffyg cefnogaeth ddefnyddiol neu arweiniad.

11.2. Her allweddol ym Merthyr Tudful yw helpu pobl i ddatblygu eu hadnoddau (sgiliau, gwybodaeth ac yn y blaen) a mynd i'r afael â'r rhwystrau maen nhw'n eu profi fel eu bod yn ffurfio gweithlu'r dyfodol. Bydd ffocws yr Amcan Llesiant hwn ar y gwaith a wnawn gyda'n cymunedau i wella eu lefel sgil y gweithlu.

11.3. O safbwynt Merthyr Tudful, mae'r cydrannau allweddol sy'n cefnogi datblygu gweithlu'r dyfodol yn cynnwys:

- Cyfleoedd cyflogaeth a swyddi gan bobl
- Pobl yn meddu ar y sgiliau sylfaenol i gael mynediad at ddysgu a rhaglenni hyfforddiant
- Pobl yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau sy'n addas ar gyfer anghenion newidiol cyflogwyr

Felly, sut fyddwn ni'n datblygu gweithlu'r dyfodol?

11.4. Er mwyn cefnogi pobl i gael cyfleoedd cyflogaeth ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn gweithio â chyflogwyr i ddylunio rhaglenni cyn-gyflogaeth pwrpasol a fydd o fudd i gyfranogwyr wrth iddyn nhw gynyddu o ran hyder a chymhelliant o gwmpas cyfleoedd dysgu, hyfforddi a chyflogaeth.
- Byddwn yn datblygu a chytuno ar atebion recriwtio i gefnogi pobl i mewn cyflogaeth ym Melinau Trago Mills a General Dynamics.

[5] JRF (2016) *Monitoring Poverty and Social Exclusion 2016*, Joseph Rowntree Foundation

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Cyflogadwyedd a Dysgu Oedolion

11.5. Er mwyn cefnogi pobl i gael y sgiliau sylfaenol a mynediad at raglenni dysgu a hyfforddi ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cyflenwi rhaglen Pontydd i Waith, a fydd yn helpu pobl i gael mynediad at gefnogaeth fel eu bod yn gallu gweithio tuag at adeiladu sgiliau a phrofiad; gan eu symud yn nes at y farchnad lafur.
- Byddwn yn cyflenwi rhaglen Cymunedau dros Waith, ble fydd mentoriaid yn gweithio â chyfranogwyr prosiect i ddynodi rhwystrau i gyflogaeth a chytuno ar gynllun gweithredu sy'n dynodi llwybrau i ddod â nhw'n nes at y farchnad lafur.

11.6. Er mwyn cefnogi pobl i gael y sgiliau a'r cymwysterau sy'n addas i anghenion newidiol cyflogwyr ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cynnig cefnogaeth i'r rheini mewn cyflogaeth drwy raglen Sgiliau Gwaith 4, a fydd yn darparu cefnogaeth dargedig yn seiliedig ar amgylchiadau unigol, gan eu helpu i ddatblygu eu sgiliau i gynnal neu wneud cynnydd yn eu Bywyd Gwaith.

A, sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella?

11.7. Drwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd:

- Cyfranogwyr prosiect mewn cyflogaeth bedair wythnos ar ôl gadael rhaglen hyfforddi
- Cyfranogwyr prosiect yn ennill cymhwyster ar ôl gadael y rhaglen hyfforddi
- Cyfranogwyr prosiect yn adrodd yn ôl am welliant i'w Llesiant

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Cyflogadwyedd a Dysgu Oedolion

12. WL 2: Datblygu'r amgylchedd ac isadeiledd fel bod busnesau'n ffynnu

Mae datblygiad sy'n integreiddio adfywio â dylunio trefol cynaliadwy yn gwella'r amgylchedd adeiledig ac yn cryfhau'r amgylchedd naturiol

12.1. Gall amgylchedd adeiledig a naturiol gael effaith ddwys ar ymddygiad a chyfleoedd pobl ac effaith sylweddol ar eu llesiant, yn enwedig ble maen nhw'n byw a gweithio. Mae ffocws yr amcan llesiant hwn yn canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud yn ein cymunedau i ddatblygu amgylchedd ac isadeiledd sy'n hwyluso twf cymunedau ac economi leol gadarn

12.2. O safbwynt Merthyr Tudful, mae'r cydrannau allweddol i gefnogi datblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu yn cynnwys:

- Pobl yn cael mynediad at opsiynau trafnidiaeth hyblyg, integredig a chynaliadwy
- Tir addas a ddatblygwyd eisoes sy'n darparu cyflenwad amrywiol o dai
- Cryfhau a chreu amrywiaeth i economïau gwledig a'r dref
- Rhieni a gofalwyr yn meddu ar opsiynau gofal plant hyblyg

Felly, sut fyddwn ni'n datblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu?

- Byddwn yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd a fydd yn darparu cyfeiriad i ddatblygu defnyddio tir tan 2031.

12.3. Er mwyn i bobl gael mynediad at opsiynau teithio hyblyg, integredig a chynaliadwy ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn darparu gorsaf fysiau newydd yng nghanol y dref i wella'r adnoddau, hygyrchedd a chysylltiadau i'r orsaf drenau, gan anelu at leihau ymddygiad gwrth gymdeithasol a throsedd sy'n gysylltiedig â'r orsaf fysiau bresennol.
- Byddwn yn datblygu ein hisadeiledd priffyrdd drwy gyflawni gwaith i roi wyneb newydd i'n rhwydwaith, sy'n cynnwys ceisiadau i wella llwybrau troed a cheudyllau. Byddwn hefyd yn cyflawni gwaith sylweddol i ddiogelu Pont Brandy (Abercannaid), Pont Pentwyn Deintyr , Pont Pontsticill a chyweirio'r llithrad ffordd i'r de o Bont-y-gwaith.

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:
Parcio, Ffyrdd a Theithio
Cynllunio a Rheoli Adeiladu
Gofal Plant
Gwybodaeth i'r Teulu
Datblygu Gwledig

- Byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau i ddynodi ceisiadau newydd ar gyfer llwybrau teithio actif ac yn annog pobl i ddefnyddio'r llwybrau teithio actif ledled Merthyr Tudful drwy hyrwyddo cyfleoedd am deithio actif.

12.4. Er mwyn i dir priodol sydd wedi cael ei ddatblygu'n flaenorol gyflenwi cyflenwad amrywiol o dai ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn parhau â phrosiect adennill tir ar safle'r hen bwll glo yn Ynys Owen i sicrhau bod y tir yn cael ei werthu i ddarparu tai a fydd yn cynnwys tai fforddiadwy, a dau blot addas ar gyfer datblygiad cymysg.

12.5. Er mwyn cryfhau a chreu amrywiaeth o ran economïau gwledig a'r dref ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cyflenwi cynllun o weithgaredd gorfodi i ddiogelu masnach gyfreithlon rhag gweithgaredd masnach anghyfreithlon drwy gasglu cudd-wybodaeth, rhannu a gweithio â phartneriaid i dargedu gweithgareddau gweithredol.
- Byddwn yn cydlynu Rhaglen Datblygu Gwledig LEADER i adolygu ceisiadau prosiect a dyrannu arian ar gyfer prosiectau gwledig ledled Cwm Taf.
- Byddwn yn datblygu brîff a fydd yn creu cynllun meistr ar gyfer Canol y Dref gan gynnwys ardal ehangach sy'n cynnwys Canol y Dref a safle presennol Hoover.

A, sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella?

12.6. Trwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd :

- Cyflwr ein rhwydwaith ffyrdd yn gwella
- Amrywiaeth cynyddol o ran cyflenwad tai

Ble i chwilio am gyfleoedd yn y dyfodol?

12.7. Bydd angen i ni ganfod pa gyfleoedd sydd ar gael yn y dyfodol i wneud gwahanol bethau, a ddylai ganolbwyntio ar:

- Beth yn fwy y gallwn ei wneud i wella'r opsiynau ar gyfer gofal plant hyblyg i rieni a gofalwyr.

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:
Parcio, Ffyrdd a Theithio
Cynllunio a Rheoli Adeiladu
Gofal Plant
Gwybodaeth i'r Teulu
Datblygu Gwledig

13. EW 1: Cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad

Mae pobl, sy'n falch o dirlun eithriadol yr ardal, yn treulio amser yn yr awyr agored yn rheolaidd mewn gwagleoedd gwyrdd, hygyrch o ansawdd uchel. Mae cymunedau'n helpu i wella eu hardaloedd lleol, dysgu sgiliau newydd, adeiladu bondiau cymdeithasol cryf a helpu bywyd gwyllt i ffynnu.

13.1. Mae'r amcan llesiant hwn yn canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda'n cymunedau i ddiogelu, gwella a hyrwyddo'r amgylchedd naturiol a chefn gwlad. Mae hyn oherwydd bod ymchwil yn dangos fod amgylchedd naturiol iach a chefn gwlad yn darparu amrywiol fanteision i bobl a bywyd gwyllt - o'r aer gwell, dŵr ac ansawdd tir, diogelu cynefin a gwell bioamrywiaeth i oblygiadau manteisiol ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

13.2. O safbwynt Merthyr Tudful, mae'r cydrannau allweddol i gymunedau ddiogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad yn cynnwys:

- Integreiddio gwarchod tirlun, rheoli a chynllunio
- Cadw difrod amgylcheddol i'r lefel isaf drwy atal llygredd
- Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o ddeunyddiau ac adnoddau drwy hierarchaeth gwastraff
- Datblygu bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd a gwagleoedd gwyrdd o ansawdd da sy'n gysylltiedig
- Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ynni carbon isel adnewyddadwy

Felly sut fyddwn ni'n helpu ein cymunedau i ddiogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad?

13.3. Er mwyn integreiddio diogelu tirlun, rheoli a chynllunio ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn dynodi a diffinio ardaloedd o bwysigrwydd uchel i'r tirlun a allai fod yn unigryw, yn eithriadol neu'n nodedig i'w dynodi fel Ardaloedd Tirlun Arbennig.
- Mae'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch[6] newydd yn golygu fod yn rhaid i'r awdurdod lleol weithio'n broactif i wella bioamrywiaeth Merthyr Tudful wrth gyflawni ei swyddogaethau. Dros y 6 mis nesaf, byddwn yn paratoi cynllun prosiect i fynd i'r afael

[6] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Biniau ac Ailgylchu

Tipio Anghyfreithlon

â'r newidiadau gofynnol i'n gweithdrefnau ac ymarferion gweithredol i sicrhau fod anghenion bioamrywiaeth yn cael eu diwallu yn ein harferion rheoli.

13.4. Er mwyn cadw difrod amgylcheddol i'r lefel leiaf drwy atal llygredd ledled Merthyr Tudful.

- Byddwn yn cynnal amgylchedd glân drwy esblygu ein hymagwedd at dipio anghyfreithlon a glanhau strydoedd. Bydd ein hymagwedd yn gwneud gwell defnydd o ddeallusrwydd cymunedol ac yn cynnwys cymunedau yn ein gweithgareddau.
- Byddwn yn paratoi cynllun gweithredu i leihau nitrogen deuocsid i lefelau derbyniol oddi fewn i'n hardal rheoli ansawdd aer ar Heol Twynyrodyn.

13.5. Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o ddeunyddiau ac adnoddau drwy gyfrwng hierarchaidd gwastraff ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn gweithio tuag at leihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i dirlenwi a chynyddu cyfraddau ailgylchu tuag at ''Sero Wastraff Cymru' fel y'i gosodwyd allan yn ein cynllun busnes rheoli gwastraff hir dymor.

13.6. Er mwyn datblygu isadeiledd bioamrywiol, gwyrdd, cysylltiedig o ansawdd da a gwagleoedd agored ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau lleol i ddarparu cyngor a chefnogaeth i alluogi pobl leol i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu gwagleoedd agored lleol a helpu i gyfeirio adnoddau i safleoedd ar gyfer gwelliant.
- Byddwn yn cefnogi cadwraeth bioamrywiaeth drwy ddynodi Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur a Gwarchodfeydd Natur Lleol a thrwy gyflenwi gweithrediadau a amlinellir yn ein cynllun gweithredu bioamrywiol lleol, sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth a gweithgaredd addysgiadol.

13.7. Er mwyn hyrwyddo a chefnogi defnyddio ynni carbon adnewyddadwy carbon isel ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn ymddwyn fel model rôl drwy osod allan sut yr ydym yn anelu at leihau ein hallyriadau carbon deuocsid o'n hadeiladau, golau stryd, a gweithrediadau teithio fflyd a busnes yn ein prosiectau rheoli carbon.
- Byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i wella effeithlonrwydd tai i gartrefi incwm isel yn ein prosiect cartrefi cynnes a rheoli unrhyw welliannau effeithlonrwydd ynni yr ymgymerir â hwy ar gyfer y cartrefi hynny.

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Biniau ac Ailgylchu

Tipio Anghyfreithlon

A sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella?

13.8. Drwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, byddwn yn gwybod fod pethau'n well pan fydd:

- Ansawdd aer Heol Twynyrodyn yn gwella
- Allyriadau CO_2 yr awdurdod lleol yn lleihau gan 3% y flwyddyn
- Achosion o dipio anghyfreithlon sydd wedi cael eu hadrodd amdanynt wedi eu clirio ymhen 5 dydd
- Glendid ein strydoedd yn gwella
- Ein cyfraddau ailgylchu yn gwella ac rydym yn tirlenwi llai o wastraff
- Maint ac ansawdd ein gwagleoedd agored yn gwella

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Biniau ac Ailgylchu

Tipio Anghyfreithlon

14. EW 2: Cymunedau'n diogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol

Bydd dathlu llwyddiant, rhoi gwerth ar ein treftadaeth, diwylliant ac iaith yn cryfhau ein hunaniaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

14.1. Canolbwynt yr amcan llesiant hwn yw defnyddio asedau cymunedol cyfredol i gyflenwi cyfoeth o fanteision iechyd i bobl Merthyr Tudful. Ceir dadl gref i awgrymu bod rhoi gwerth ar ein treftadaeth, diwylliant ac iaith yn gallu dod â gwelliannau i lesiant unigolion a chymunedau

14.2. O safbwynt Merthyr Tudful, ymhlith y cydrannau allweddol er mwyn i gymunedau ddiogelu, datblygu a hyrwyddo eu treftadaeth a'u diwylliant mae:

- Cefnogi cyfleusterau cefnogi presennol a datblygiadau a arweinir gan y gymuned
- Cefnogi datblygiadau twristiaeth a hamdden addas
- Hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol oddi fewn i'n cymunedau
- Hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg

Felly, sut fyddwn ni'n helpu ein cymunedau i ddiogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n diwylliant?

14.3. Er mwyn cefnogi adnoddau cymunedol presennol a datblygiadau a arweinir gan y gymuned ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn diogelu ardal Dreftadaeth Cyfarthfa drwy wella ac ailddatblygu Castell a Pharc Cyfarthfa, a fydd yn cynnwys gwella a diogelu Ffwrneisi Cyfarthfa.
- Byddwn yn parhau â chadwraeth ac adfywio amgylchedd adeiledig hanesyddol yn Ardal Dreftadaeth Pontmorlais, a fydd yn cynnwys adeiladau, parth cyhoeddus, hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu traddodiadol a gweithgareddau cymunedol.

14.4. Er mwyn cefnogi datblygiadau twristiaeth a hamdden addas ledled Merthyr Tudful byddwn yn:

- Byddwn yn gweithio â Rock UK ar ailddatblygu Canolfan Copa Trelewis i greu canolfan antur.

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:
Cadwraeth
Twristiaeth
Diwylliant
Yr Iaith Gymraeg

14.5. Er mwyn hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol oddi fewn i'n cymunedau ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cysylltu ag atyniadau allweddol a busnesau'r sector twristiaeth i ailddatblygu gwefan Ymweld â Merthyr a'i wneud yn gydnaws â thechnoleg symudol.

14.6. Er mwyn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cyhoeddi Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ym mis Rhagfyr 2017, a fydd yn gosod allan y camau y byddwn yn eu cymryd i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym Merthyr Tudful.

A, sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella?

14.7. Er mwyn gwybod a yw pethau'n gwella, byddwn fel arfer yn cyfeirio at yr allbynnau o arolygon cymunedol neu wybodaeth perfformiad, fodd bynnag, nid oes unrhyw arolwg na data perfformiad yn bodoli i ddweud wrthym os yw pethau'n gwella. Felly byddwn yn edrych ar yr astudiaeth achos i werthuso effaith y prosiectau ar y gymuned.

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Cadwraeth
Twristiaeth
Diwylliant
Yr Iaith Gymraeg

15. LW 1: Datblygu cymunedau mwy diogel

Mae pobl sy'n byw mewn cymunedau cysylltiedig yn teimlo'n ddiogel ble maen nhw'n byw, gweithio neu'n treulio eu hamser hamdden.

15.1. Mae teimlo'n ddiogel yn dylanwadu ar sut mae pobl yn gwerthfawrogi eu cymuned, ac mae'n bwysig i ansawdd bywyd pobl, gan lunio'r gwahaniaeth yn aml rhwng pobl sydd am fyw ac aros yn eu cymdogaeth neu beidio. Ceir tystiolaeth i awgrymu fod adeiladu hyder a gwytnwch mewn unigolion a chymunedau'n gam pwysig tuag at wella llesiant, ble mae pobl iachach a hapusach yn fwy tebygol o gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau a'r gymdeithas.

15.2. O safbwynt Merthyr Tudful, mae'r cydrannau allweddol ar gyfer datblygu cymunedau diogelach yn cynnwys:

- Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac sydd mewn risg o niwed
- Mynd i'r afael â'r niwed a achosir drwy gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- Mynd i'r afael â thrais yn erbyn gwragedd a merched
- Rheoli troseddwyr (pobl ifanc i fyny at oedolion)
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cydlyniad cymunedol

Felly, sut fyddwn ni'n datblygu cymunedau mwy diogel?

15.3. Er mwyn diogelu plant sy'n agored i niwed ac oedolion sydd mewn risg o gael eu niweidio ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cyflawni archwiliadau pan fydd galwyr digroeso wedi eu dynodi ac yn gweithredu'n briodol, a fydd yn cynnwys defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rybuddio preswylwyr ac ymgymryd â phatrolau Masnachwyr Digroeso.
- Byddwn yn hyrwyddo Merthyr Tudful fel ardal Dim Galwyr Digroeso drwy weithio gyda Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Bydd hyn yn cynnwys gwaith â'i ffocws ar bartneriaid gofal cymdeithasol, i ddatblygu mesurau dynodi a diogelu ar gyfer preswylwyr sy'n agored i niwed.
- Byddwn yn cyflawni gweithgaredd marchnata a recriwtio i wella argaeledd gofalwyr maeth lleol fel bod pobl ifanc yn cael mwy o ddewis o ran lleoliad a'r potensial i aros yn nes at gartref.

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:
Diogelwch Cymunedol
Diogelu
Trosedd, Diogelwch ac Argyfyngau

- Byddwn yn adolygu'r gefnogaeth i bobl ifanc derbyn Gwarchodaeth Arbennig i ddynodi beth yn fwy gellir ei wneud i gynnal cynaliadwyedd ac atal cynnydd o ran angen a risg.

15.4. Er mwyn mynd i'r afael â'r niwed a achosir drwy gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn datblygu "ap" rhoi gwybod am sbwriel cyffuriau drwy weithio gyda Flymapper™ i estyn swyddogaeth bresennol oddi fewn eu "ap" a fydd yn galluogi'r cyhoedd i roi gwybod am enghreifftiau o sbwriel cyffuriau drwy ddefnyddio technoleg ffôn symudol.
- Byddwn yn diogelu plant rhag cyflenwad o nwyddau oed-gyfyngedig drwy weithio gyda phartneriaid i gynyddu deallusrwydd ynghylch mynediad plant at nwyddau oed-gyfyngedig fel alcohol, tybaco a hapchwarae, a fydd yn cynnwys gweithrediadau prynu prawf a gweithred gorfodi ble y bo'n briodol.

15.5. Er mwyn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cefnogi teuluoedd ac unigolion sy'n profi trais neu gam-drin domestig. Bydd hyn yn cynnwys cyflenwi cefnogaeth arbenigol emosiynol ac ymarferol i rieni, plant a phobl ifanc yn ein rhaglenni Comets & Rockets a Crea8.

15.6. Er mwyn cefnogi rheolaeth effeithiol yn erbyn troseddwyr (pobl ifanc hyd at oedolion) ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cefnogi prosiect DIVERT 18-25 ac yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth gymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu ag oedolion ifanc i hyrwyddo dewisiadau ffordd o fyw cadarnhaol a darparu addysg a hyfforddiant.

A, sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella?

15.7. Drwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, byddwn yn gwybod bod pethau'n gwella pan fydd:

- Ymholiadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau oddi fewn i gyfraddau amser statudol
- Adrodd yn ôl am lai o oedolion mewn risg o gam-drin neu esgeulustod fwy nag un waith yn ystod y flwyddyn
- Ceir llai o ailgofrestru plant ar y gofrestr diogelu plant
- Caiff rhagor o blant eu cefnogi i barhau i fyw oddi fewn i'w teulu
- Rhagor o wiriadau monitro cydymffurfio yn cael eu pasio

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:
Diogelwch Cymunedol
Diogelu
Trosedd, Diogelwch ac Argyfyngau

Ble i chwilio am gyfleoedd i'r dyfodol?

15.8. Bydd angen i ni edrych ar ba gyfleoedd i'r dyfodol sydd yna i wneud gwahanol bethau, a ddylai ganolbwyntio ar:

- Yr hyn gallwn ei wneud i leihau'r enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Yr hyn gallwn ei wneud i gefnogi cydlyniant gwell yn y gymuned

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Diogelwch Cymunedol

Diogelu

Trosedd, Diogelwch ac Argyfyngau

16. LW 2: Iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl

Mae pobl sy'n mabwysiadu ymddygiad iach yn gynharach yn eu bywyd yn fwy iach ac yn teimlo'n dda ac yn gweithredu'n well

16.1. Ceir sawl rhagfynegydd llesiant ac mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar ddau ohonynt: iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae'r cyswllt rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn ddiymwad. Caiff y naill effaith ar y llall. Gall iechyd corfforol gwael arwain at iechyd meddwl gwael ac i'r gwrthwyneb. Yn yr un modd ag y gall iechyd corfforol da wella cyflwr ein meddwl, gall meddwl cryf ac iach wella'n gallu ni'n fawr i ymdopi ag anhwylderau corfforol.

16.2. O safbwynt Merthyr Tudful, mae'r cydrannau allweddol er mwyn i bobl gael Llesiant corfforol a meddwl da yn cynnwys:

- Hyrwyddo ymddygiad iach o oedran ifanc
- Mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol plentyndod
- Datblygu cymdogaethau ac ardaloedd cymunedol glân

Felly, sut fyddwn ni'n helpu pobl i gael iechyd da o ran corff a meddwl?

16.3. Er mwyn hyrwyddo ymddygiad iach o oedran ifanc ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn gweithio gydag addysg y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion (3-11 oed) i gynyddu lefelau llythrennedd corfforol mewn plant ifanc a chreu adnodd cyflenwi i athrawon oddi fewn i'r ysgol.

16.4. Er mwyn cynyddu lefelau o weithgaredd corfforol ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn gweithio â sefydliadau lleol a chlybiau i ddatblygu llywodraethu, cynaliadwyedd a phresenoldeb clybiau ym Merthyr Tudful i sicrhau eu dyfodol hir dymor a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer ymarfer corff.

A, sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella?

16.5. Drwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, byddwn yn gwybod fod pethau'n well pan fydd:

- Rhagor o bobl yn ymweld â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden ac yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol
- Cyfranogiad disgyblion mewn gweithgaredd chwaraeon a chorfforol yn gwella
- Cyfranogwyr prosiect Heini Merthyr yn adrodd yn ôl am welliant i'w llesiant

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Chwaraeon a Hamdden

Iechyd Meddwl

Ble i chwilio am gyfleoedd y dyfodol?

16.6. Bydd angen i ni edrych ar ba gyfleoedd sydd yna i'r dyfodol ar gyfer gwneud gwahanol bethau, a ddylai ganolbwyntio ar:

- Yr hyn gallwn ei wneud i fynd i'r afael â phrofiadau croes plentyndod
- Yr hyn gallwn ei wneud i gefnogi pobl i gael iechyd meddwl da
- Yr hyn gall yr Ymddiriedolaeth Hamdden ei wneud i hyrwyddo ymddygiad iach
- Yr hyn gall yr Ymddiriedolaeth Hamdden ei wneud i gynyddu lefelau o weithgaredd corfforol

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:

Chwaraeon a Hamdden

Iechyd Meddwl

17. LW 3: Pobl yn byw'n annibynnol

Mae gan bobl, sydd wedi eu hymrymuso i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, y gefnogaeth, cyngor a chymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion personol, bwy'n ddiogel a chael mynediad at y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

17.1. Canolbwynt yr amcan hwn yw helpu pobl ag anghenion cefnogi penodol i fyw bywydau annibynnol ac iach yn eu cymunedau yn hirach. Bydd y math o gefnogaeth ofynnol i hyrwyddo mwy o annibyniaeth a llesiant yn gwahaniaethu ar gyfer grwpiau amrywiol yn y gymuned.

17.2. O safbwynt Merthyr Tudful, mae'r cydrannau allweddol i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn cynnwys:

- Cyfathrebu ffynonellau cyngor, cymorth a chefnogaeth yn glir ac yn hygyrch
- Casglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth i lywio cynllunio a chyflenwi gwasanaeth
- Gwell mynediad at wasanaethau a chyfleusterau o ansawdd i gefnogi cymdeithas well i bobl â nodweddion a diogelir.

Felly, sut fyddwn ni'n helpu pobl i fyw'n annibynnol?

17.3. Er mwyn cyfathrebu ffynonellau cyngor, cymorth a chefnogaeth yn glir a hygyrch ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn gweithio â phobl ifanc i ddynodi beth sydd angen i ni ei wneud yn wahanol i wella'r wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth rydym yn ei ddarparu, a gosod cynlluniau mewn lle i wella'r wybodaeth, cyngor neu gymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd.

17.4. Er mwyn casglu safbwyntiau'r defnyddwyr gwasanaeth i lywio cynllunio a chyflenwi gwasanaeth ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth cyfredol i gasglu eu safbwyntiau am ofal preswyl a nyrsio wrth i ni adolygu a diwygio'r Contract a Manyleb Gofal Cartref i gynnwys cynllunio a chyflenwi gofal sydd â'r person yn ganolog iddo.
- Byddwn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth cyfredol i gasglu eu safbwyntiau am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion wrth i ni baratoi Datganiad Safle Marchnad i sicrhau fod darpariaeth gofal cymdeithasol oedolion ym Merthyr Tudful yn briodol i ddiwallu anghenion gofal a chefnogi pobl.

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:
Cymorth i fyw gartref
Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phobl Hyn
Cydraddoldebau

- Byddwn yn defnyddio offer asesu seiliedig ar dystiolaeth, ar y cyd â safbwyntiau rhieni a defnyddwyr ifanc o'r gwasanaeth, i ddynodi beth sydd angen i ni ei wneud yn wahanol i sicrhau fod darpariaeth plant a gwasanaethau cymdeithasol i'r teulu ym Merthyr Tudful yn cael eu targedu i atal plant rhag dyfod yn blant sy'n derbyn gofal.

17.5. Er mwyn datblygu gwasanaethau sy'n darparu'r gallu i bobl fyw yn eu cartrefi eu hun ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn ail-ffurfweddu cefnogaeth sy'n berthnasol i dai i wella'r lefel o gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i grwpiau penodol sy'n agored i niwed i'w helpu i fyw yn y gymuned a mwynhau mwy o annibyniaeth.
- Byddwn yn canolbwyntio ar fesuriad a gwerthusiad y gwasanaeth Stay Well @Home yn ystod blwyddyn gyntaf ei weithredu wrth iddo anelu at wella'r pontio rhwng ysbyty a gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi eu lleoli yn y gymuned.

17.6. Er mwyn sicrhau gwell mynediad at wasanaethau o ansawdd a chyfleusterau i gefnogi cymdeithas decach o bobl â nodweddion a ddiogelir ledled Merthyr Tudful:

- Byddwn yn cydweithredu â Chwaraeon Anabledd Cymru a phedwar awdurdod lleol partner yng Nghymru i derfynu'r meini prawf dull asesu a datblygu cynllun prosiect i gyflawni Insport Gold.
- Byddwn yn creu adnodd dysgu cydraddoldeb i'n cyflogeion ac yn eu darparu â'r hyfforddiant atodol i helpu â chyngor a chanllawiau cydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a pheilota ffurflen monitro cydraddoldeb i wella ein dealltwriaeth o'n cwsmeriaid.
- Byddwn yn gweithio â pherchennog y tir a'n cymuned Sipsiwn Teithiol lleol i ddiogelu safle teithwyr Glynmill ym Merthyr Tudful.

A, sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella?

17.7. Drwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, byddwn yn gwybod bod pethau'n well pan fydd:

- Mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion wedi derbyn y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedden nhw eu hangen
- Mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion yn gallu byw'n annibynnol
- Mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth oedolion yn derbyn taliad uniongyrchol
- Gostyngiad o ran oedi trosglwyddo gofal

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:
Cymorth i fyw gartref
Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phobl Hyn
Cydraddoldebau

- Gostyngiad o ran yr amser i gyflenwi addasiadau yn defnyddio proses grant cyfleusterau i'r anabl
- Mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion yn cwblhau cyfnod o ail-alluogi heb becyn gofal
- Mwy o ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion yn cwblhau cyfnod o ail-alluogi gyda gostyngiad o ran pecyn gofal

Ble i chwilio am gyfleoedd i'r dyfodol?

17.8. Bydd angen i ni edrych ar ba gyfleoedd i'r dyfodol sydd, i wneud gwahanol bethau, a ddylai ganolbwyntio ar:

- Yr hyn a wnawn i gyfathrebu ffynonellau cyngor, cymorth a chefnogaeth yn glir ac yn hygyrch.

Hoffech chi wybod rhagor?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu rhagor am:
Cymorth i fyw gartref
Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phobl Hyn
Cydraddoldebau

18. Cymryd rhan

18.1. Mae yna nifer o ffyrdd o gymryd rhan gyda'r Cyngor. Un o'r prif ffyrdd o gymryd rhan yw drwy eich Cynghorydd lleol. Gallwch ddarganfod pwy yw eich Cynghorydd lleol, a sut i gysylltu ag ef neu hi drwy ymweld â [Gwefan y Cyngor].

18.2. Rydym am gynnal cyfranogiad cymunedol a pharhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o Lesiant ym Merthyr Tudful. Mae croeso i chi rannu eich meddyliau am lesiant neu eich syniadau am sut galwn wella llesiant ym Merthyr Tudful yma Llesiant@merthyr.gov.uk.

Gallwch hefyd ddod o hyd i ni fan hyn:

www.facebook.com/merthyrtydfilcbc

www.twitter.com/merthyrcbc

www.youtube.com/c/MerthyrTydfilCBC

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council